# CYNGOR TREF RHUTHUN
# RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref
Ffordd Wynnstay
RHUTHUN
LL15 1AS
Ffôn: (01824) 703797
e-bost: clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk

Town Hall
Wynnstay Road
RUTHIN
LL15 1AS
Tel: (01824) 703797
e-mail: clerk@ruthintowncouncil.gov.uk

*Clerc y Dref / Town Clerk: Dafydd Williams*

Eich Cyf/Your Ref: Ein Cyf/Our Ref: Dyddiad/Date: 14 Rhagfyr 2015

At Faer y Dref a'r Cynghorwyr
**Cyngor Tref Rhuthun**

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi fynychu Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos LUN, 21 RHAGFYR 2015** am **7:00 p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yno yn yr agenda isod.

Yn gywir

*Dafydd Williams*

Dafydd Williams
**Clerc y Dref**

## AGENDA

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2. **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**
   Datgelu buddiannau personol ac ariannol mewn eitemau busnes a restrir isod.

3. **MR DARREN MILLAR A.C.**
   I dderbyn cyflwyniad gan Mr Darren Millar Aelod o'r Cynulliad.

4. **ADRODDIAD Y MAER**

5. **ADRODDIADAU'R AELODAU**

6. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**
   I dderbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2015.

7. **MATERION YN CODI**

8. **PWYLLGOR AMWYNDERAU**
   I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2015.

9. **IS-BWYLLGOR CYMORTH ARIANNOL**
I dderbyn a mabwysiadu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2015.

10. **CAIS AM GYMORTH ARIANNOL SEFYDLIAD CASTELL RHUTHUN**
I ystyried cais am Gymorth Ariannol yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref nos Lun, 7 Rhagfyr 2015 (copi o'r adroddiad wedi'i ddosbarthu eisoes).

11. **MODERNEIDDIO SWYDDFA BOST RHUTHUN**
I dderbyn llythyr oddi wrth Reolwr Ardal y Swyddfa Bost, Sue Whittall, ynghylch moderneiddio Swyddfa Bost Rhuthun (copi melyn).

12. **CYMDEITHAS CLERCOD CYNGHORAU LLEOL – ADNEWYDDU AELODAETH FLYNYDDOL**
I ystyried adnewyddu aelodaeth flynyddol y Clerc gyda'r Gymdeithas uchod, sy'n ddyledus ar 1af Ionawr 2016. Y pris yw £149.00.

13. **DINESYDD DA RHUTHUN 2016**
I drefnu dyddiad i aelodau'r grŵp Dinesydd Da gyfarfod – aelodaeth: Cynghorwyr James Bryan, Elisabeth Culshaw, Rosie Hughes-Moseley a Menna Jones ynghyd â'r Maer a'r Dirprwy Faer.

14. **'CROSSING THE DIVIDE' - COFFADWRIAETH CANMLWYDDIANT BRWYDR COEDWIG MAMETZ**
I dderbyn ac ystyried neges e-bost, ynghyd â llythyr Mynegi Diddordeb a dogfen Cynnig Arfaethedig gan Ron Bell, Trefnydd Digwyddiadau, Grŵp Cymunedol Rhuthun, yn gofyn am gau Ffordd ar sail dreigl ar ddydd Sadwrn, 9 Gorffennaf 2016 (copïau glas).

15. **TŴR CLOC PEERS – NOSWYL CALAN**
I dderbyn ac ystyried neges e-bost, ynghyd â ffotograff, gan Jeff Brimble sy'n dymuno goleuo Tŵr Cloc Peers ar Noswyl Calan.

16. **BIL DRAFFT LLYWODRAETH LEOL (CYMRU)**
Mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyhoeddi Bil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru) ar gyfer ymgynghori arno, sy'n nodi cynigion manwl Llywodraeth Cymru o ran diwygio llywodraeth leol. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ar yr hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio fel 'map' llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol, **yn cynnwys Cynghorau Tref a Chymuned.** Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 15 Chwefror 2016.

17. **CYNLLUN LLIFOGYDD GLASDIR**
I dderbyn copi o Gynllun Llifogydd Cymunedol Glasdir, er gwybodaeth.

18. **Y RHEOLEIDDIWR PENSIYNAU**
I dderbyn ac ystyried neges e-bost gan y Rheoleiddiwr Pensiynau a bod y Cyngor Tref yn ystyried dewis darparydd cynllun pensiwn yn awr (copi glas).

19. **TÎM TREF RHUTHUN**
I ystyried diweddaru cynrychiolaeth y Cyngor Tref ar y sefydliad uchod – y cynrychiolwyr presennol yw'r Maer a'r Cynghorydd Geraint Woolford.

20. **GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (WERNFECHAN, RHUTHUN, SIR DDINBYCH) (GWAHARDD AROS) 2015**
I dderbyn rhagor o fanylion am y Gorchymyn hwn.

**21. DATGANIAD ARIANNOL**

I dderbyn a mabwysiadu datganiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 30ain Tachwedd 2015 (copi gwyrdd).

**22. CYFRIFON I'W TALU**

I gymeradwyo talu'r eitemau canlynol:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 819 | Sandra Williams | Cyfieithu | * | 90.00 |
| 820 | Cyllid y Wlad | Treth ac Yswiriant Gwladol | | 597.33 |
| 821 | Dafydd Williams | Stampiau ac ati | | 24.60 |
| 822 | Groundworks North West | Cyflenwi a gosod sedd siglen math crud ym maes chwarae'r Caeau Chwarae Coffa | * | 300.00 |
| 823 | Glascoed Timber | Gwasanaethu'r biniau baw cŵn | * | 672.00 |
| 824 | Fineline | 100 o gardiau Nadolig maint A5 | * | 131.04 |
| 825 | Cyngor Sir Ddinbych | Cael gwared â hen fin baw ci a gosod bin gwastraff newydd ar Lôn Speiriol / Erw Goch. | * | 708.00 |
| 826 | Fineline | Cyflenwadau swyddfa | * | 42.42 |
| 827 | I.T. Williams | Cludo'r rhwystrau ar gyfer Marchnad y Dref Tachwedd 2015 | * | 180.00 |
| 828 | Cyng. Anne Roberts | Cysuron Nadolig 2015 | | 50.00 |

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £353.91)

**RHAN DAU**

**Bydd rhagor o fanylion am y tair eitem isod yn cael eu postio at Gynghorwyr Tref yn unig.**

**23. CYFLOG CLERC Y DREF BLAENOROL**

I dderbyn manylion.

**24. CLERC Y DREF BLAENOROL – GWEINYDDIAETH GYFFREDINOL – CILDWRN**

I dderbyn ac ystyried manylion y cynllun Cildwrn ar gyfer Clerc y Dref blaenorol.

**25. GRŴP PENODI CLERC Y DREF**

I dderbyn a chadarnhau fod cofnodion cyfarfod y Grŵp Penodi Clerc y Dref a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2015 yn gywir.

**26. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

I gadarnhau Nos Lun, 25 Ionawr 2016 fel dyddiad y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref.

**DALIER SYLW**: Yn dilyn y cyfarfod mae gwahoddiad gan y Maer ichwi gyfranogi o Hwyl yr Ŵyl.